




Partneriaeth CASCADE



Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**
Health and Care
Research **Wales**



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

2021 - 2022
Adroddiad blynyddol





Partneriaid Seilwaith CASCADE



Centre for
Trials Research
Canolfan
Ymchwil Treialon



School of Psychology
Ysgol Seicoleg



Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**
Health and Care
Research **Wales**



Cynnwys

1. Trosolwg y Cyfarwyddwr	4
2. Pwy yw pwy o fewn Partneriaeth CASCADE	5
3. Crynodeb o'r flwyddyn	6
Grantiau a phrosiectau	7
Ymgysylltu â'r sector a gwneud gwahaniaeth	8
Cynnwys plant a rhieni yn ein gwaith	8
Datblygu ein cysylltiadau rhyngwladol	9
4. Ymchwil	10
Addysg plant a phobl ifanc mewn gofal	11
Lleihau'r angen i blant fod mewn gofal cyhoeddus	13
Rôl y teulu	15
Rhagoriaeth ymchwil	17
5. Cynnwys ac ymgysylltiad y cyhoedd a lledaenu gwybodaeth	18
Cynnwys y cyhoedd	18
Ymgysylltu a'r sector a lledaenu gwybodaeth	19
6. Casgliad	20



1. Trosolwg y Cyfarwyddwr

Mae'n bleser gallu ysgrifennu'r rhagair ar gyfer ein hail adroddiad blynyddol. Mae'r adroddiad yn egluro pwy ydym ni, yn crynhoi ein perfformiad ac yn cyflwyno astudiaethau achos sy'n dangos rhai cyflawniadau allweddol o'r flwyddyn hon.

Nod Partneriaeth CASCADE yw ymgymryd â gwaith ymchwil rhagorol sy'n gwneud gwahaniaeth ystyrlon i blant a theuluoedd sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol plant. Gwnawn hyn drwy gydweithio ar draws Canolfannau er mwyn cymhwyso arbenigedd methodolegol i gwestiynau sydd ag arwyddocâd i bolisi ac ymarfer. Rydym yn gosod profiadau plant a rhieni wrth galon ein gwaith. Hefyd, rydym yn cyflwyno rhwydwaith ExChange i gysylltu ymarferwyr gofal cymdeithasol oedolion a phlant ledled Cymru gydag ymchwil trwy ddigwyddiadau, ein gwefannau, y cyfryngau cymdeithasol a negeseuon e-bost uniongyrchol.

Does dim amheuaeth, mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus eleni, gyda mwy o grantiau'n cael eu hennill, gwell ymgysylltiad â'r sector a mwy o gyfranogiad gan blant, pobl ifanc a rhieni yn ein gwaith. Gobeithiaf fod yr adroddiad hwn yn rhoi golwg hygyrch gyffredinol ar rywfaint o'r gwaith a wnaethom a'r gwahaniaeth y mae, gobeithio, yn ei wneud.

Ar nodyn personol, eleni, daeth ein teulu yn ofalwyr maeth. O ganlyniad, rwyf wedi gweld ymchwil ym maes gofal cymdeithasol plant o safbwynt gwahanol, gyda'n plant a'n teulu yn derbyn gwasanaethau. Bu'n galonogol iawn gweld ymchwil Partneriaeth CASCADE yn rhan annatod o lawer o'r pethau gorau rydym wedi'u profi. Mae hyn wedi cynnwys polisïau lleol a chenedlaethol blaengar, gwasanaethau cynorthwyol i blant a rhieni a ffyrdd arloesol o ddarparu cymorth. Os oedd gen i fyth amheunon am bwysigrwydd y gwaith rydym yn ei wneud, cawsant eu dileu am byth trwy brofi gwasanaethau'n uniongyrchol. Mae gwaith Partneriaeth CASCADE yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i filoedd o bobl bob dydd. Gobeithiaf y byddwch yn mwynhau darllen mwy amdano yn yr adroddiad hwn.

Donald Forrester

Cyfarwyddwr, Partneriaeth CASCADE
Athro Gwaith Cymdeithasol Plant a'r Teulu
Prifysgol Caerdydd



"A ninnau'n uned treialon academiaidd, rydym yn croesawu dulliau tîm o ddatrys heriau cynllunio treialon. Mae'r bartneriaeth academiaidd dan arweiniad CASCADE yn dod â methodolegwyr sy'n arbenigo mewn treialon, data arferol, a gwerthusiadau prosesau, ynghyd gydag arbenigwyr ym maes gofal cymdeithasol plant. Nid yn unig y mae'r arloesiadau canlyniadol yn unig yn gwella dulliau o werthuso ymyriadau gofal cymdeithasol, maent hefyd yn ychwanegu gwerth mewn meysydd ymchwil eraill sydd â phoblogaethau na chawsant eu gwasanaethu'n ddigonol yn hanesyddol."

Mike Robling

Athro a Chyfarwyddwr Treialon Iechyd y
Boblogaeth yn y Ganolfan Treialon Ymchwil

2. Pwy yw pwy o fewn Partneriaeth CASCADE

Mae'r bartneriaeth yn dod â phedair canolfan ymchwil at ei gilydd. Cawn ein harwain gan Fwrdd Llywodraethu sy'n cyfarfod bob chwarter – er bod llawer o'n bywiogrwydd a'r gwaith a wneir gennym i greu syniadau newydd yn dod o'r gwaith rydym yn ei wneud gyda'n gilydd yn datblygu a chyflawni prosiectau neu feysydd gwaith penodol a diwrnodau i ffwrdd a seminarau rheolaidd.



Mae Donald Forrester yn Athro Gwaith Cymdeithasol Plant a'r Teulu ac yn Gyfarwyddwr CASCADE. Mae'n Gyfarwyddwr y Bartneriaeth ac mae'n gyfrifol am oruchwylio ei holl waith.



Mae Jonathan Scourfield yn Athro Gwaith Cymdeithasol ac yn Ddirprwy Gyfarwyddwr CASCADE. Mae ganddo rôl allweddol yn y gwaith o ddatblygu ein gwaith yn cymhwyso cysylltu data â gofal cymdeithasol plant.



Mae Alyson Rees yn Athro mewn Gwaith Cymdeithasol ac yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol CASCADE. Mae Alyson yn arwain ein gwaith ymgysylltu ymchwil gofal cymdeithasol i Gymru gyfan – a elwir yn ExChange.



Mae David Wilkins yn Ddarllenydd mewn Gwaith Cymdeithasol ac yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol CASCADE. David sy'n bennaf gyfrifol am ddatblygu proffil, dylanwad ac effaith allanol y Bartneriaeth.



Jo Parry yw Rheolwr y Ganolfan yn CASCADE ac mae'n arwain ar ddarparu cymorth gwasanaethau proffesiynol yn effeithlon ar draws y bartneriaeth.



Mae Mike Robling yn Athro ac yn Gyfarwyddwr Treialon Iechyd y Boblogaeth yn y Ganolfan Treialon Ymchwil. Mae'n arwain cyfraniad y Ganolfan Treialon Ymchwil ac mae ganddo rôl allweddol yn datblygu dulliau gwerthuso cymhleth ac arloesol ar gyfer gofal cymdeithasol plant.



Mae David Ford yn Athro Gwybodeg ac yn Gyfarwyddwr Gwyddor Data Poblogaeth yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe. Mae'n arwain cyfraniad Banc Data SAIL, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu portffolio o astudiaethau gan ddefnyddio dulliau cysylltu data uwch a gymhwysir at ofal cymdeithasol plant.



Mae Katherine Shelton yn Athro Seicoleg ac yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Gwyddoniaeth Datblygiad Dynol ym Mhrifysgol Caerdydd. Ar hyn o bryd, mae Katherine yn datblygu astudiaeth sy'n ymchwilio i siapio iechyd meddwl a'r mecanweithiau seicolegol sy'n nodweddu trawsnewidiadau ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

3. Crynodeb o'r flwyddyn

Cyfnod adrodd: **2021/2022**



**Gwobr seilwaith
Ymchwil Iechyd a
Gofal Cymru i'r grŵp**



Cyllid
uniongyrchol
a ddyfarnwyd
£594k

Swyddi a
grëwyd drwy
gyllid
uniongyrchol



Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

Grantiau a enillwyd	Dan arweiniad y grŵp	Grŵp yn cydweithio
Nifer	23	2
Gwerth	£2.7m	£3.1m
Cyllid i Gymru	£2.6m	£428k
Cyllid i grŵp	£2.6m	£428k
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru	26	4
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp	24	0



Nifer y cyhoeddiadau



Nifer y digwyddiadau
ymgysylltu â'r cyhoedd



Nifer y cyfleoedd i'r
cyhoedd gymryd rhan

Grantiau a phrosiectau

Sicrhau grantiau yw anadl einioes unrhyw ganolfan ymchwil. Bu'n flwyddyn hynod lwyddiannus eleni, yn hyn o beth: cawsom 25 o ddyfarniadau newydd, 8 yn fwy na'r llynedd. Mae hyn yn golygu bod ein llwyddiant wrth geisio am grantiau wedi codi o 32% iach i 58% rhyfeddol a bod gwerth ein dyfarniadau wedi mwy na dyblu. Mae ein portffolio astudiaethau ar draws y Bartneriaeth trwy ddyfarniadau a arweinir ac a gefnogir, hyd yma, bellach yn £8.2 miliwn.

Ffocws strategol eleni oedd sicrhau mwy o grantiau gan gyllidwyr iechyd allweddol, megis y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR) a'r Cyngor Ymchwil Feddygol (MRC). Cawsom gryn lwyddiant wrth sicrhau cyllid o'r ffynonellau hyn. Mae'r NIHR yn ariannu dwy astudiaeth bwysig sy'n canolbwyntio ar ein helpu i ddeall cynadleddau grŵp teuluol ym maes gofal cymdeithasol plant. Mae'r Athro Katherine Shelton yn arwain cangen Cymru o brosiect ymchwil mawr yr MRC sy'n bwrw golwg ar iechyd meddwl plant mewn gofal dros amser (gweler y Blwch).

Nid ar hap a damwain y digwyddodd y llwyddiant hwn. Mae ein cyllid seilwaith gan Ymchwil Gofal Iechyd Cymru (HCRW) wedi'i alluogi mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae ein Partneriaeth yn dod â phobl sydd â dealltwriaeth ddofn o'r sector gofal cymdeithasol plant ynghyd â phobl sydd ag arbenigedd methodolegol. Mae hyn yn caniatáu i ni ofyn y cwestiynau cywir, a datblygu astudiaethau sy'n debygol o allu eu hateb. Yn ail, rydym yn rhoi llawer o gefnogaeth ar gyfer datblygu ac ysgrifennu cynigion. Mae hyn yn cynnwys seminarau a chyfarfodydd anffurfiol, enciliadau ysgrifennu, mentora i staff, help gyda phob elfen o ddatblygu cynnig, ein grwpiau gweithgar o rieni a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a chyfranogiad staff mwy profiadol wrth gefnogi prosiectau dan arweiniad ymchwilwyr newyddach.

Deall iechyd meddwl plant mewn gofal

Mae'r Athro Shelton yn rhan o gydweithrediad mawr gwerth £2.8 miliwn, a arweinir gan gydweithwyr yn Rhydychen a Chaerfaddon ac a ariennir gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU, a fydd yn archwilio lles ac iechyd meddwl plant mewn gofal. Bydd yr astudiaeth yn edrych ar ddau bwynt pontio allweddol – symud i'r ysgol uwchradd a gadael gofal. Bydd yr ymchwil yn cynnwys dadansoddiad eilaidd o ddata presennol, casglu data newydd ar gyfer tua 600 o blant mewn gofal a'u gofawyr, a chynnwys pobl ifanc a theuluoedd yn yr ymchwil. Bydd yn cynhyrchu tystiolaeth sy'n bwysig i'n dealltwriaeth academaidd o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar les plant ac a fydd â goblygiadau i bolisi ac ymarfer.



Ymgysylltu â'r sector a gwneud gwahaniaeth

Nid gwneud gwaith ymchwil da yn unig yw nod y Bartneriaeth – ein nod yw gwneud gwahaniaeth. I gyflawni hyn, rydym yn gweithio'n galed i ymgysylltu'r sector â'n hymchwil.

Fel rhan o'n gwaith seilwaith, rydym yn rhedeg ExChange – rhwydwaith ymgysylltu ymchwil gofal cymdeithasol Cymru gyfan. Yn wahanol i CASCADE yn ei gyfanrwydd, mae ExChange yn cwmpasu gofal cymdeithasol oedolion a phlant. Yn ystod y pandemig, symudodd ein gwaith ymgysylltu â'r sector ar-lein, ac mae hyn wedi bod yn hynod lwyddiannus. Er enghraifft:



Mae ein bwletin pythefnosol cryno bellach yn cyrraedd **1738** o bobl



Gwylwyd ein **29** gweminar a digwyddiad yn fyw gan **1991** o bobl ac fe'u gwylwyd **3641** tro yn ychwanegol ar Youtube, sy'n golygu cyfanswm o **5632** o wylwyr



Mae pobl o **102** o wahanol wledydd wedi mynd at ein gwefannau newydd dros **100,000** tro



Cafodd ein blogiau **1472** o ddarllenwyr a chafodd ein podlediadau **800** o wrandawyr

Mae mwy a mwy o ddiddordeb wedi bod gan y cyfryngau yn ein gwaith hefyd, yng Nghymru a ledled y DU. Mae ein hymchwil wedi ymddangos yn The Times, The Guardian, The Western Mail, teledu a radio BBC Cymru ac amrywiaeth o orsafoedd radio eraill.

Cynnwys plant a rhieni yn ein gwaith

Mae cynnwys plant a rhieni sydd â phrofiad uniongyrchol o ofal cymdeithasol plant bob amser wedi'i osod wrth wraidd yr hyn a wnawn. Mae hyn eto wedi bod yn hynod lwyddiannus – gyda 52 o ddigwyddiadau yn cynnwys 151 o bobl ifanc neu rieni â phrofiad o ofal. Eleni, rydym wedi cymryd cam pellach pwysig, sef cyflogi pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o ofal cymdeithasol plant fel cyd-ymchwilwyr, neu “ymchwilwyr cymheiriaid”. Bellach, mae gennym 10 o ymchwilwyr cymheiriaid yn gweithio ar draws prosiectau lluosog. Maent yn darparu dealltwriaeth ddofn o natur materion ym maes gofal cymdeithasol plant ac mae hyn yn cyfoethogi ein gwaith. Hefyd, rydym yn hapus iawn bod rhai ohonynt eisiau datblygu gyrfaedd fel ymchwilwyr gyda CASCADE. Mae cefnogi'r rhai sydd wedi profi'r system i'n helpu i ddeall a gwella'r system yn nod sylfaenol i'r Bartneriaeth.

“Mae Cascade yn gwneud yr ymchwil mwyaf cyffrous ym maes gwaith cymdeithasol plant a theuluoedd. Gobeithio bydd gennym ganolfan debyg yn y Ffindir hefyd ryw ddiwrnod”


Elina Altio,

Myfyriwr Doethurol, Prifysgol Jyväskylä,
y Ffindir

Datblygu ein cysylltiadau rhyngwladol

Un o nodweddion y flwyddyn fu datblygu cydweithrediadau rhyngwladol. Rydym yn bartneriaid cynigion sy'n cael eu harwain o'r Ffindir, Denmarc ac UDA, rydym wedi ysgrifennu papurau gyda chydweithwyr o 13 o sefydliadau rhyngwladol gwahanol ac rydym bellach yn addysgu dulliau ymchwil i fyfyrwyr PhD yn yr Eidal a Gwlad Pwyl yn flynyddol.

Mae ein gwaith lledaenu gwybodaeth wedi dod yn fwy rhyngwladol hefyd: mae pump y cant o'r rhai sy'n gwrando ar ein podlediadau wedi'u lleoli yn UDA, mae gennym danysgrifwyr i'n cylchlythyr e-bost pythefnosol o bob rhan o'r byd ac mae pobl o 102 o wledydd y byd wedi ymweld â'n gwefan.



ALLWEDD

- | | | |
|--------------|--------------------|-----------------------|
| ● Rhwydwaith | ● Cydweithio | ● Cyfweliad |
| ● Cyhoeddiad | ● Dyfarniad | ● Cyflwyniad |
| ● Cynhadledd | ● Prosiect Ymchwil | ● Cyrhaeddiad Ar-lein |

4. Ymchwil

Ein profiad ni yw ein bod ni'n gwneud mwy o wahaniaeth ac yn gwneud ymchwil well pan fyddwn wedi cynnal diddordeb mewn pwnc penodol. Yn yr Adroddiad eleni, rydym yn amlygu tri maes lle mae ein gwaith wedi'i nodweddu gan ymhél yn barhaus â mater, yn hytrach na phrosiectau unigol.

Y tri naes yw:

- canlyniadau addysgol ar gyfer plant mewn gofal
- lleihau'r angen i blant fod mewn gofal yn ddiogel
- cynnwys aelodau'r teulu yn well wrth wneud penderfyniadau am blant



Addysg plant a phobl ifanc mewn gofal

Nid yw plant mewn gofal yn gwneud cystal yn addysgol â phlant eraill. Mae'r bwlch tuag 20% yng nghyfnod allweddol 2, ond mae'n cynyddu ym mhob cyfnod dilynol. Tua 6% o blant mewn gofal sy'n mynd i'r brifysgol yn syth o'r ysgol, gyda 6% arall yn mynd yn hwyrach mewn bywyd. Mae'r cyfrannau i blant nad ydynt mewn gofal tua 40% a 50% yn y drefn honno. Mae Partneriaeth CASCADE wedi cymryd rhan mewn astudiaethau sydd â nod o fynd i'r afael â'r bwlch hwn ers ei sefydlu, ac mae'n parhau i fod yn agwedd bwysig ar ein gwaith.

Dechreuodd ein hymchwili yn y maes hwn gyda'r astudiaeth Plant sy'n Derbyn Gofal mewn Addysg (LACE), a ddechreuodd yn 2014. Roedd gwaith dilynol a ddeilliodd yn uniongyrchol o LACE yn cynnwys grantiau pellach i wella effaith yr ymchwili a'r rhaglen Meithrin Lles, a werthuswyd gan yr Athro Alyson Rees ac eraill. Mae ein gwaith cysylltiedig presennol yn cynnwys cymrodoriaeth Dr Hannah Bayfield ar sut y gallwn helpu a chefnogi plant mewn gofal i fynd i'r brifysgol, a chymrodoriaeth Dr Phil Smith ar bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ac sydd mewn unedau cyfeirio disgyblion. Mae astudiaethau perthnasol eraill yn cynnwys cymrodoriaeth Dr Sarah Thompson ar blant mewn gofal ag anhwylder ar y sbectwm awtistig a chynnig cydweithredol i ddeall amrywiadau mewn canlyniadau addysgol gan ddefnyddio cysylltu data dan arweiniad Dr Lowthian (Prifysgol Abertawe).



Deall profiadau pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru ym maes addysg uwch

Nod y Gymrodoriaeth Ôl-ddoethurol tair blynedd hon, a ariennir gan HCRW ac sy'n cael ei chyflawni gan Dr Bayfield, yw deall beth mae Sefydliadau Addysg Uwch Cymru (SAU) yn ei wneud i wella mynediad i'r rhai sy'n gadael gofal i Addysg Uwch, a llwyddiant ynddi, ac asesu effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn er mwyn llunio argymhellion ar gyfer arfer gorau.

Mae pump ar hugain o gyfweiliadau wedi'u cynnal gyda gweithwyr proffesiynol a chymerodd 22 o bobl ifanc â phrofiad o ofal o bob rhan o Gymru ran mewn cyfweiliadau a grwpiau ffocws.

Amlygodd gweithwyr proffesiynol bwysigrwydd rhwydweithiau a rhannu gwybodaeth, anawsterau nodi myfyrwyr sydd wedi cael profiad o ofal i gael cymorth y tu hwnt i 18 oed, ac anawsterau ynghylch cyfnodau pontio sy'n cysylltu â phroblemau ehangach cymorth ôl-18 a'r 'clogwyn gofal'. Amlygodd ail gam y prosiect fod cysondeb, disgwyliadau a chefnogaeth oll yn chwarae rhan allweddol yn nheithiau pobl ifanc â phrofiad o ofal drwy addysg, gan gynnwys y pontio i Addysg Uwch.

Arweiniodd y canfyddiadau at gais llwyddiannus am gyllid gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) i gynyddu effaith drwy ddatblygu gwefan sy'n canolbwyntio ar gyfeirio a darparu gwybodaeth, a chynghor ac arweiniad ar addysg uwch i bobl â phrofiad o ofal yng Nghymru a'r rhai sy'n eu cefnogi.



Astudiaeth Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACE)

Dan arweiniad Dr Dawn Mannay a thîm o ymchwilwyr CASCADE, LACE oedd un o'r astudiaethau cyntaf i ymchwilio i addysg a gofal yng Nghymru. Roedd yn cynnwys cyfweiliadau â 65 o blant mewn gofal a chydgynhyrchu adnoddau creadigol i ddylanwadu ar bolisi ac arfer. Nodwedd arbennig o'r astudiaeth oedd y ffordd yr oedd yn cynnwys pobl ifanc drwy gydol yr astudiaeth a'r deunyddiau creadigol a gynhyrchwyd ar y cyd i roi cyhoeddusrwydd i ganfyddiadau allweddol yr ymchwil.

Arweiniodd yr astudiaeth at newidiadau i bolisi ac arfer, gan gynnwys rhoi blaenoriaeth derbyn i blant mewn gofal a chyllid ar gyfer hyfforddiant i ofalwyr maeth. Fe'i cyflwynwyd i Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021, a farnodd ei bod yn enghraifft 4* o effaith, yr uchaf posibl o ran cyrhaeddiad ac arwyddocâd. Mae adnoddau LACE ar gael o hyd ar wefan ExChange – ac mae nifer o'n hastudiaethau dilynol wedi adeiladu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar waith prosiect LACE.

Lleihau'r angen i blant fod mewn gofal cyhoeddus

Mae gofal cymdeithasol plant yn gweithio'n bennaf gyda phlant yn eu teuluoedd, fodd bynnag mae rhai plant yn mynd i ofal cyhoeddus pan ystyrir na all eu rhieni ofalu amdanynt gartref. Bod mewn gofal yw'r opsiwn cywir i rai plant, y mae angen eu hamddiffyn rhag niwed difrifol. Ac eto, efallai mai tynnu plant o deuluoedd yw'r ymyrraeth fwyaf difrifol y gall y wladwriaeth ei gwneud ym mywyd teuluol ac, felly, dim ond pan fydd angen pendant amdano y dylai ddigwydd.

Mae hyn yn peri bod y cynnydd mawr mewn cyfraddau gofal dros y degawdau diwethaf yn bryderus. Rhwng 2003 a 2021, cynyddodd y gyfradd ofal yng Nghymru 89%. Er y bu cynnydd ledled y DU, maent ar eu mwyaf amlwg yng Nghymru: yn 2003 roedd y cyfraddau ar gyfer Cymru a Lloegr yn debyg, erbyn hyn mae gan Gymru 60% yn fwy o blant mewn gofal fesul pen y boblogaeth nag yn Lloegr.

Mae Partneriaeth CASCADE yn cymryd rhan weithredol mewn datblygiadau ymchwil, polisi ac ymarfer gyda'r nod o ddeall pam mae cyfraddau gofal mor uchel ac archwilio'r hyn y gallem ei wneud yn ei gylch. Yn ein gwaith gyda'r What Works Centre for Children's Social Care (WWCSC) yn Lloegr, fe wnaethom adolygu'r llenyddiaeth ryngwladol ar y pwnc hwn, yn ogystal ag adolygiadau systematig mwy penodol o dystiolaeth ar gyfer Astudiaethau Dwys ar Ddiogelu Teuluoedd, y model Arwyddion Diogelwch a Chynadleddau Grŵp Teuluol. Arweiniodd yr olaf o'r rhain at waith pellach ar y pwnc hwn, a amlinellir yn yr astudiaeth achos nesaf. Rydym wedi cefnogi gwaith yng Nghymru hefyd. Eleni, cyhoeddwyd ein harolwg cenedlaethol o'r gweithlu gofal cymdeithasol plant ynghylch pam mae cyfraddau gofal yn uchel a'r gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol (ALLau), a pharhad rhaglen waith dan arweiniad Dr Louise Roberts ar gefnogi rhieni a oedd wedi bod mewn gofal.

Nid oes atebion hawdd i'r cwestiynau cymhleth y mae'r cynnydd mewn cyfraddau gofal yng Nghymru dros y degawdau diwethaf yn eu codi – ond mae gwaith Partneriaeth CASCADE yn canolbwyntio ar ddarparu'r dystiolaeth y mae ar y rhai sy'n cyflwyno polisi ac arfer ei hangen er mwyn gwneud y penderfyniadau gorau ar gyfer plant unigol ac i ddatblygu polisi a gwasanaethau.



Arolwg cenedlaethol i ddangos pam mae amrywiadau mawr mewn cyfraddau gofal rhwng awdurdodau lleol

Er bod cyfraddau gofal yn gyffredinol wedi codi'n ddramatig, mae'r rhain yn amrywio'n aruthrol rhwng awdurdodau lleol (ALLau). Er enghraifft, ers 2003, mae cyfraddau gofal yn Sir Fynwy wedi cynyddu dros 350% ond prin y maent wedi newid yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'n anodd ymchwilio i amrywiadau o'r fath. Mewn ymgais i wneud hynny, cynhaliodd yr Athro Donald Forrester a Sophie Wood arolwg cenedlaethol o safbwyntiau a phrofiadau pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol plant yng Nghymru. Canfu'r arolwg wahaniaethau sylweddol yn ymatebion y rheini mewn ALLau â chyfraddau gofal cynyddol o'u cymharu â'r rheini â chyfraddau gostyngol, gyda gwerthoedd cadarnhaol cryfach am deuluoedd biolegol a llai o debygolrwydd o argymhell symud plant o deuluoedd mewn ymateb i astudiaethau achos. Roedd ymatebwyr mewn ALLau â chyfraddau gofal gostyngol hefyd yn fwy hyderus ynghylch gwneud penderfyniadau ac yn fwy cadarnhaol am gymorth ar gyfer ymarfer yn eu ALI. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod rhywfaint o'r amrywiad mewn cyfraddau gofal rhwng ALLau yn debygol o ymwneud â gwahaniaethau mewn gwerthoedd a chymorth ar gyfer ymarfer. Mae hyn yn bwysig, oherwydd os yw rhai ALLau yn "mynd yn groes i'r duedd", sef cyfraddau gofal cynyddol, mae'n debygol y bydd gwersi i'w dysgu ganddynt ar gyfer y system gyfan.

Dyfynnwyd y canfyddiadau yn yr Adolygiad Annibynnol o Ofal Cymdeithasol Plant yn Lloegr. Maent hefyd wedi llywio gwaith parhaus yng Nghymru, gan gynnwys o fewn Llywodraeth Cymru a chyda Phenaethiaid Gwasanaethau Plant ledled Cymru. Bellach, rydym yn gweithio'n ddiwyd gyda Chymdeithas Penaethiaid Gwasanaethau Plant ac ALLau penodol i archwilio ffyrdd o leihau'n ddiogel yr angen i blant fod mewn gofal.

Helpu plant a fu mewn gofal, fel rhieni

Mae Dr Louise Roberts yn arwain rhaglen waith allweddol sy'n ymwneud â phrofiadau a chanlyniadau i bobl ifanc mewn gofal ac sy'n gadael gofal, sy'n rhieni. Nododd gwaith cychwynnol gan Dr Roberts fod plant yn cael eu tynnu oddi wrth gyfrannau eithriadol o uchel o rieni sy'n gadael gofal. Mae ei gwaith wedi symud ymlaen i gydgyhyrchu newidiadau i bolisiau ac arferion i fynd i'r afael â hyn.

Ar y cyd â Dr Dawn Mannay a Rachael Vaughan, llwyddodd y grŵp i sicrhau cyllid ESRC ar gyfer prosiect Impact i herio stigma, gwahaniaethu a chanlyniadau gwael i rieni ifanc mewn gofal ac sy'n gadael gofal.

Gweithiodd y prosiect hwn yn gydgyhyrchol gyda rhieni sydd â phrofiad o ofal a sefydliad partner, Voices from Care Cymru, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru a Thros Gynnal Plant Cymru i gynhyrchu Siarter arfer gorau wedi'i hanelu at rieni corfforaethol.

O ganlyniad, mae'r grŵp wedi lansio "Siarter Rhieni â Phrofiad Gofal". Cynlluniwyd y siarter i ystyried anghenion pobl ifanc, cyn ac ar ôl iddynt ddod yn rhieni, ac mae'n ymrwymo i herio stigma a gwahaniaethu. Un o'r ymrwymïadau mwyaf arwyddocaol yn y siarter yw bod yr awdurdod lleol yn symud rhag polisi atgyfeiriadau asesu gofal cyn geni yn awtomatig i ddull mwy cymesur sy'n seiliedig ar risg. Mae sawl awdurdod lleol wedi ymrwymo i hyn a'r nod yw i bob awdurdod lleol yng Nghymru wneud hynny.

O ganlyniad i ddiddordeb ehangach yn y siarter, mae cyllid wedi'i ymestyn i ganiatáu am ei hyrwyddo a'i lledaenu ymhellach, ar draws y DU, Iwerddon a'r Eidal.

Rôl y teulu

Mae rôl ystyrion gan rieni ac oedolion eraill o'r teulu yng ngofal cymdeithasol plant yn egwyddor allweddol deddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr, ac eto mae ymchwil yn awgrymu nad yw hyn yn cael ei wneud yn ddigon da yn aml gan y sector. Yn benodol, canfuwyd bod cynadleddau achos amddiffyn plant yn dieithrio rhieni ac yn ormod iddynt. Yn y cyd-destun hwn, mae Partneriaeth CASCADE yn canolbwyntio ar ddulliau amgen, gan astudio arfer da o ran cynnwys teuluoedd gan gynnwys astudiaethau allweddol sy'n gwerthuso Cynadleddau Grŵp Teuluol ac eiriolaeth rhieni.

Hefyd, rydym yn ceisio cynnwys rhieni sydd â phrofiad o lygad y ffynnon yn holl waith y Bartneriaeth. Mae ein rhwydwaith rhieni, sy'n ein cynghori ar ein gwaith, wedi mynd o nerth i nerth eleni ac mae hyder yr aelodau wedi tyfu.

Rydym hefyd yn cynnwys mwy o bobl â phrofiad o lygad y ffynnon o ofal cymdeithasol plant yn ein prosiect. Erbyn hyn, mae rhieni neu bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn gweithio ar nifer o brosiectau fel rhan o'n timau ymchwil.



Ymchwil cynadleddau grŵp teuluol

Mae cynadleddau grŵp teuluol (cynadleddau) yn dod â theulu a ffrindiau ynghyd i wneud penderfyniadau am yr hyn sydd orau i blant. Fe'u defnyddir yn aml pan fo pryderon difrifol am ddiogelwch plant. Yn ystod ein gwaith yn datblygu WWCS, adolygwyd y dystiolaeth ar gyfer cynadleddau. Yna, fe wnaethom dreialu'r defnydd o gynadleddau grŵp teuluol yn lle cynadleddau amddiffyn plant, sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol yn bennaf ac sy'n gallu dieithrio rhieni. O'r gwaith hwnnw, gwnaethom ddau gais llwyddiannus i'r NIHR ar gyfer prosiectau mawr a fydd yn archwilio ac yn datblygu ein dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio a gwerthuso cynadleddau grŵp teuluol:

Mae Family VOICE yn brosiect pedair blynedd gwerth £1.2m a arweinir ym Mhartneriaeth CASCADE gan yr Athro Jonathan Scourfield ac mae'n cynnwys cydweithwyr o DECIPHer a Phrifysgol Rhydychen. Mae'n cynnwys cyddylunio holiadur gwerthuso a fydd yn cael ei ddefnyddio mewn gwasanaethau ar draws y DU i archwilio sut mae ansawdd a chyd-destun cynadleddau grŵp teuluol yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae pethau'n gweithio allan i deuluoedd. Hefyd, bydd yr astudiaeth yn defnyddio data gofal cymdeithasol ac iechyd i edrych ar ganlyniadau ddwy flynedd ar ôl cynhadledd, gan gymharu teuluoedd sydd wedi cael cynadleddau â theuluoedd tebyg na chawsant gynhadledd. Mae dau ymchwilydd sydd â phrofiad o lygad y ffynnon o gynadleddau yn cael eu cyflogi ar y prosiect, ac mae un ohonynt yn gyd-ymchwilydd.


Mae'r ail astudiaeth yn werthusiad gwerth £830,000 o gynadleddau dan arweiniad Caerwysg, gydag ymchwilwyr presennol Partneriaeth CASCADE, Lorna Stabler a Dr David Wilkins, yn gyd-ymchwilwyr. Bydd yn astudio'r defnydd o gynadleddau yn lle cynadleddau achos amddiffyn plant traddodiadol mewn un fwrdeistref yn Llundain. Bydd y ffocws ar yr hyn sy'n gweithio i ddarbwylllo gweithwyr cymdeithasol i ddewis llwybr y gynhadledd, ac i ba deuluoedd y dylid dewis y llwybr newydd hwn.

Gwella Eiriolaeth i Rieni

Gall y broses amddiffyn plant fod yn frawychus iawn. Mae hyn yn fwy gwir fyth i rieni a allai ei chael hi'n anodd mynegi eu barn. Nod eiriolaeth rhieni yw ceisio mynd i'r afael â hyn drwy ddarparu rhywun i gefnogi rhiant drwy'r broses amddiffyn plant, gan wneud yn siŵr bod y rhieni'n deall popeth sy'n digwydd a'u helpu i leisio'u barn.

Mae dwy astudiaeth dan arweiniad Dr Clive Diaz yn bwrw golwg ar sut mae eiriolaeth rhieni yn gweithio'n ymarferol. Mae un o astudiaethau CASCADE yn canolbwyntio ar dde Cymru ac yn cael ei hariannu gan ddarparwyr y gwasanaeth, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol. Mae'r llall yn edrych ar fersiwn o eiriolaeth rhieni a arweinir gan gymheiriaid ym Mwrdeistref Camden yn Llundain ac fe'i hariennir gan What Works for Children's Social Care. Mae eiriolaeth rhieni a arweinir gan gymheiriaid yn golygu bod rhieni sydd wedi cael profiad o'r system amddiffyn plant eu hunain yn eiriolwyr ar ran eraill.

Mae eiriolaeth rhieni yn ddull y mae Llywodraeth Cymru wedi addo ei gyflwyno ledled Cymru yn ystod tymor presennol y Senedd. Mae'r Adolygiad Annibynnol diweddar o Ofal Cymdeithasol Plant yn Lloegr wedi argymhell cynnydd sylweddol iawn yn y defnydd o eiriolaeth rhieni. Felly, ymddengys fod yr astudiaethau hyn yn amserol ac yn debygol o wneud gwahaniaeth mawr.



Rhagoriaeth ymchwil

Mae gwaith y Bartneriaeth wedi ei gydnabod mewn amrywiol ffyrdd eleni. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

Uwch Arweinwyr ac Arweinwyr Arbenigol ar gyfer Ymchwil Gofal Iechyd Cymru

Rydym wrth ein bodd bod HCRW wedi cydnabod yr Athro Forrester a'r Athro Scourfield yn Uwch Arweinwyr mewn gofal cymdeithasol ac iechyd, ac maent yn edrych ymlaen at gefnogi datblygiad gallu ymchwil a'r defnydd o ymchwil i wella arfer ledled Cymru dros y tair blynedd nesaf.

Yn ogystal, mae'r Athro Scourfield a Dr Maxwell wedi dod yn Arweinwyr Arbenigedd ar y cyd ar gyfer gofal cymdeithasol. Rôl newydd yw hon ac mae'n gyfle allweddol i ddatblygu gallu ymhellach ym maes gofal cymdeithasol plant ac oedolion yng Nghymru yn y blynyddoedd i ddod. Edrychwn ymlaen at weld datblygiadau cyffrous yn y maes hwn.



Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**
Health and Care
Research **Wales**

Cydnabod Effaith Gwaith CASCADE

Mae'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yn broses ledled y DU sy'n barnu ansawdd ac effaith ymchwil. Cyflwynwyd ymchwil CASCADE i ddau banel gwahanol eleni, Cymdeithaseg ac Addysg. Barnwyd pob cyflwyniad yn y deg uchaf yn y wlad – ac rydym wrth ein bodd ein bod wedi bod yn rhan o'r llwyddiannau hyn.

Cyflawnodd effaith y gwaith a wnawn broffil arbennig o uchel, gan lunio dwy astudiaeth achos ar wahân. Roedd hyn yn cynnwys un astudiaeth achos ar addysg plant sy'n derbyn gofal, dan arweiniad Dr Mannay (gweler tudalen 12), ac ail yn canolbwyntio ar waith Dr Hallett i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Dyrchafiadau

Un ffordd y mae prifysgolion yn cydnabod cyflawniad staff yw trwy eu dyrchafu – ac yn ôl hynny, rydym wedi cael blwyddyn wych! Eleni:

- Dyrchafwyd Dr Alyson Rees yn Athro
- Dyrchafwyd Dr David Wilkins yn Ddarllenydd
- Dyrchafwyd Dave Westlake yn Uwch-gymrawd Ymchwil
- Dyrchafwyd Dr Louise Roberts yn Uwch-darlithydd

Rydym yn falch iawn bod cyfraniadau'r unigolion hyn yn cael eu cydnabod gan y Brifysgol.

5. Cynnwys ac ymgysylltiad y cyhoedd a lledaenu gwybodaeth


Rydym eisoes wedi nodi bod ein gwaith sy'n cynnwys plant, pobl ifanc a rhieni yn ein gwaith wedi bod yn un o uchafbwyntiau ein blwyddyn. Mae'r un peth yn wir am ein gwaith ymgysylltu'r sector â'n hymchwil a chydweithio i sicrhau y gall ymchwil gefnogi arfer da. Yn yr adran hon, rydym yn rhoi mwy o fanylion am y meysydd hyn o'n gwaith.

Cynnwys y cyhoedd

Bwrdd Cynnwys CASCADE

Rydym wedi sefydlu bwrdd strategol o arbenigwyr yn ôl profiad i gefnogi datblygiad gwaith cynnwys CASCADE. Mae'r bwrdd wedi adolygu a monitro ein cynnydd, yn ogystal â chynnig syniadau ar draws y ganolfan yn unol â safonau cynnwys y cyhoedd. Mae'r aelodau'n cynnwys y rhai sydd â phrofiad o ofal, mabwysiadu, digartrefedd, maethu ac amddiffyn plant fel rhiant. Sefydlwyd y grŵp ym mis Medi 2020 ac, ar hyn o bryd, mae'n cynnwys cysylltiadau sy'n bodoli eisoes drwy waith ymgysylltu neu gynnwys ehangach CASCADE.

Gweithgareddau Cynnwys y Cyhoedd



- Bwrdd Cynnwys CASCADE 2 weithgaredd
- Lleisiau CASCADE 7 gweithgaredd
- Grŵp cyngori ymchwil rhieni CASCADE 21 gweithgaredd
- Cyfleoedd penodol i brosiect 22 weithgaredd

Lleisiau CASCADE

Cydweithrediad rhwng Voices from Care Cymru a CASCADE, dyma grŵp o bobl ifanc â phrofiad o ofal sy'n cynghori ar brosiectau ymchwil o'r cam dylunio i'w lledaenu. Mae hyfforddiant mewn dulliau ymchwil a hwyluso grŵp yn cael eu cynnal gan CASCADE. Bu parhad y pandemig yn her i'r grŵp hwn. Rydym yn dal i weithio ar sut y bydd y grŵp yn gweithio yn y dyfodol, ac yn cael ei arwain gan ddymuniadau'r bobl ifanc. Ar hyn o bryd, mae'r grŵp yn cyfarfod bob yn ail fis wyneb yn wyneb.

Grŵp cyngori Ymchwil Rhieni CASCADE

Sefydlom Grŵp Cyngori Ymchwil Rhieni CASCADE ym mis Rhagfyr 2020. Mae pob aelod o'r grŵp wedi cael profiad o ofal cymdeithasol plant fel rhieni. Mae'r grŵp wedi magu hyder eleni, rydym wedi darparu cyfleoedd i'r grŵp ddatblygu sgiliau digidol ym mis Mawrth eleni, yn ogystal â sesiwn Ymwybyddiaeth Ofalgar. Mae'r grŵp wedi bod yn ymwneud yn arbennig â chefnogi prosiectau'n ymwneud ag Eiriolaeth Rhieni.

Rhannodd y rhieni eu profiadau o'r grŵp a dyma'r geiriau a ddewiswyd ganddynt:

sgiliau newydd **cydweithio**
cadarnhaol **ysbrydoledig**
defnyddiol **gwneud newidiadau**
caru'r bocsys rhoddion
helpu eraill **gwybodaeth**
teimlo'n ysbrydoledig

Ymgysylltu â'r sector a lledaenu gwybodaeth

ExChange yw rhwydwaith ymgysylltu ymchwil gofal cymdeithasol Cymru gyfan. Mae'n cwmpasu gofal cymdeithasol oedolion a phlant. Y nod yw lledaenu gwybodaeth ac ymgysylltu ymarferwyr gofal cymdeithasol â'n hymchwil. Mae ExChange yn darparu ystod o hyfforddiant ac adnoddau trwy ein cyfres o gynadleddau, gan gynnwys gweithdai, darlithoedd, podlediadau a blogiau.

Eleni, mae ExChange wedi ehangu i gynnwys gweithgareddau lledaenu gwybodaeth a chynadleddau ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion. Er mwyn sicrhau ein bod yn ymdrin â phynciau sy'n bwysig i'r sector, rydym wedi datblygu Grŵp Cynghori ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae'r grŵp hwn, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, yn rhoi cipolwg a chyfeiriad i lywio'r cynnwys a ddarparwn.

Mae ExChange wedi parhau i dyfu a datblygu ei gyrhaeddiad ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol yn nifer yr ymarferwyr y mae wedi ymgysylltu â nhw. Eleni, mae ein gweithgareddau ymgysylltu wedi cyrraedd dros **8400** o bobl, cynnydd o **62%** ers Blwyddyn 1.

Mae ein post uniongyrchol misol, Bwletin Bach, wedi cynyddu nifer ei danysgrifwyr i **1740** o aelodau.

"Mae gallu cael at ymchwil o safon fyd-eang sy'n cysylltu'n amlwg ag ymarfer, sy'n hygyrch ac yn gynhwysol, a hynny yn rhad ac am ddim, yn amhrisiadwy i weithwyr cymdeithasol yng Nghymru. Mae BASW Cymru bob amser wedi hyrwyddo ExChange i'n haelodau fel elfen allweddol o'u datblygiad proffesiynol."

Allison Hulme

Cyfarwyddwr Cenedlaethol – Cymru,
Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain

Yn ein cyfweiliad â Kayleigh Llewellyn, awdur In My Skin, drama hunangofiannol y BBC sydd wedi ennill gwobrau BAFTA, ymunodd **dros 70** o bobl â'r darllediad cyntaf ym mis Chwefror 2022 ac mae **550** wedi gwyllo'r cyfweiliad ers hynny.

Gweithgareddau Ymgysylltu



- **Gweminarau** 4041 o bobl wedi ymgysylltu
- **Darlithoedd** 1592 o bobl wedi ymgysylltu
- **Blogiau** 1472 o bobl wedi ymgysylltu
- **Podlediad** 814 o bobl wedi ymgysylltu
- **Adnoddau** 412 o bobl wedi ymgysylltu
- **Dosbarth Meistr Ymchwil** 76 o bobl wedi ymgysylltu
- **Grwpiau cynghori** 13 o bobl wedi ymgysylltu



Denodd trafodaeth rhwng academyddion CASCADE a Steve Rollnick, cyd-sylfaenydd Motivational Interviewing, **dros 200** o gynrychiolwyr i'r digwyddiad byw ar-lein ym mis Mehefin 2021 ac mae wedi'i wyllo **dros 800** o weithiau ar YouTube.



6. Casgliad

Mae ail flwyddyn ein cyllid seilwaith wedi bod yn llwyddiant eithriadol. Mae ein llwyddiant parhaus wrth sicrhau grantiau yn cynnig llwyfan cryf ar gyfer ffyniant parhaus y Bartneriaeth ac yn cyd-fynd â hyn yr oedd cyrhaeddiad cynyddol ein gweithgareddau ymgysylltu â'r sector, ein proffil rhyngwladol cynyddol a chyfranogiad gwell gan blant, pobl ifanc a rhieni yn ein gwaith.

Mae gennym fentrau cyffrous ar y gweill ar gyfer y flwyddyn nesaf, gyda ffocws penodol ar archwilio ffyrdd newydd o ymgysylltu ag arweinwyr sector, dyfnhau ein perthynas ag ymarferwyr ac ymgysylltu â phlant wrth lunio ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys cyfarfod â thimau arweinyddiaeth ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru i siarad am ein gwaith. Gyda nifer fach o awdurdodau lleol, rydym yn cynnal prosiectau newid â therfyn amser, a gynlluniwyd i roi ymchwil ar waith. Hefyd, rydym yn datblygu model o ddarparu hyfforddiant nid-er-elw a fydd yn ein galluogi i weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys ymarferwyr, pobl ifanc a rhieni, i ddarparu hyfforddiant ar draws y Deyrnas Unedig. Rydym hefyd yn bwriadu gwella cyfranogiad plant iau wrth lunio ein hymchwil, mewn ffyrdd newydd, creadigol a phleserus.

Yn yr hydref, rydym yn lansio'r rhaglen “Arfer Cadarnhaol”, sy’n anelu at nodi a rhannu arfer cadarnhaol ym maes gofal cymdeithasol plant, a'i werthuso lle bo modd. Gobeithio bydd gennym fwy o newyddion da am y mentrau hyn i'w hadrodd y flwyddyn nesaf.

Ni fu'n flwyddyn hawdd i neb eleni ac, i sawl aelod o'r tîm, roedd gweithio trwy bandemig, weithiau gyda chyfrifoldebau gofalu neu pan fyddant yn ynysig, wedi bod yn anodd iawn. Mae eu hymrwymiad mewn amgylchiadau anodd yn gwneud llwyddiant amlwg y Bartneriaeth yn fwy eithriadol fyth.

Yr hyn sy'n ein symbylu ni oll drwy'r amser yw'r gobaith a'r gred bod y gwaith rydym yn ei wneud yn gwneud gwahaniaeth; bod yr ymchwil a wnawn yn gallu helpu'r rhai sy'n gweithio i helpu plant a theuluoedd. Gobeithio bod yr adroddiad hwn wedi cynnig blas nid yn unig ar yr hyn a wnawn, ond pam yr ydym yn ei wneud ac, ar ôl ei ddarllen, y bydd gennych ymdeimlad o'r gwahaniaeth y mae Partneriaeth CASCADE yn ei wneud yn ein barn ni i blant a theuluoedd yng Nghymru a thu hwnt.

Yr Athro Donald Forrester

Cyfarwyddwr, Partneriaeth CASCADE